# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Rhifau Coll** |
| Adnoddau: | • Lluniau o rifau/cymeriadau'r gyfres 'Cymeriadau Difyr' (wedi'u lamineiddio os yw'n bosib) – *gweler y ddogfen 'Cymeriadau Difyr Maint A3'.*<br>• Numicons. |
| Camau: | Darllenwch a thrafodwch y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Rhifau Coll'.<br><br>Mae'r ffrindiau i gyd wedi mynd i chwarae yn y parc yn y stori, ond heddiw maen nhw wedi dod i'n hysgol ni ac wedi mynd ar goll. Rhaid i ni chwilio amdanyn nhw.<br><br>**<u>Cam 1: Cuddio a chwilio</u>**<br>Cuddiwch y lluniau o rifau o gwmpas eich ardal allanol / dosbarth/ parc - *gweler y ddogfen 'Cymeriadau Difyr Maint A3'.*<br><br>Y dysgwyr i fynd o gwmpas i chwilio am y rhifau. Dod â nhw nôl a threfnu. Mae cwestiynu'n allweddol yma (gweler yr adran 'Cwestiynu' isod).<br><br>Does dim rhaid cuddio'r lluniau i gyd. Er enghraifft, byddai'n bosib cuddio 2,7 a 9 a chael y dysgwyr i drefnu'r rhifau sydd yna, a gofyn iddynt pa rai sydd ar goll: 'Pa rif sy'n dod ar ôl 7 ond cyn 9?'<br><br>**<u>Cam 2: Numicons / Gwrthrychau</u>**<br>Dweud wrth y dysgwyr i chwilio am rif a chyfateb y rhif gyda numicons neu bethau o'r ardal allanol / y dosbarth, e.e. ar gyfer rhif 5 - y numicon 5 / 5 deilen / 5 pensil.<br><br>**<u>Cam 3: Chwilio am 2 rif</u>**<br>Chwilio am 2 rif o gwmpas yr ardal allanol. Rhaid adio'r ddau rif i ddod o hyd i'r ateb. Pa rif yw'r mwyaf? Tynnwch y ddau rif. |
| Cwestiynu: | Pa rif sydd ar goll?<br>Pa rif sy'n dod ar ôl 4?<br>Pa rif sy'n dod cyn 9?<br>Rydych chi wedi ffeindio rhif 3. Beth yw dwbl rhif 3?<br>Pa rif sydd 1 yn llai na ...? / 1 yn fwy? / 2 yn llai? / 2 yn fwy?<br>Adiwch ddau rif / Adiwch dri rhif. |



# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Beth nesaf? | Odrifau ac eilrifau - mynd gam ymhellach a defnyddio rhifau mwy na 10. |

